

Datganiad Gwariant Grant Datblygu Disgyblion Ysgol Bro Tryweryn

Diben y Grant Datblygu Disgyblion yw gwella canlyniadau ac llwyddiannau i ddysgwyr sydd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. (PYD).

Diffiniad estynedig o ddefnyddio'r GDD - "Dylid defnyddio'r GDD i gefnogi anghenion yr holl blant sydd yn neu sydd wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y ddwy flynedd flaenorol, neu blant sy'n derbyn gofal. Bwriedir i'r GDD roi cymorth i ddysgwyr sydd o dan anfantais i oresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n atal y rheiny o gefndiroedd difreintiedig rhag cyflawni eu potensial yn llawn."

Fel ysgol mae'r GDD yn cael ei ddefnyddio i:

Meini Prawf	✓	X
Datblygu dulliau llythrennedd a rhifedd cynnar.	✓	
Y GDD i'w ddefnyddio i gefnogi pob dysgwr cymwys, gan gynnwys disgyblion MATH	✓	
Tystiolaeth o olrhain disgyblion, adnabod tangyflawniad a defnyddio strategaethau ymyrraeth cadarn;	✓	
Rhoi blaenoriaeth uchel i ddysgu ac addysgu, adborth o safon uchel a metawybyddiaeth;	✓	
Sicrhau bod staff cymorth wedi'u hyfforddi i'r radd uchaf a'u bod yn deall yn glir y ddarpariaeth maent yn arwain arni yn yr adnodd cynllunio grant;	✓	
O leiaf 60% o GDD ysgolion uwchradd i'w fuddsoddi yn nisgyblion cyfnod allweddol 3;	N/A	
Datblygu systemau a phrosesau effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion	✓	
Sicrhau y cyhoeddir pob datganiad GDD ar wefan ysgol / G6.	✓	

Yn ychwanegol i'r uchod rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:

- Hyfforddi aelod o staff ar gwrs ELSA

Yn 2019-20 rhoddwyd i Ysgol Bro Tryweryn ddyraniad Grant Datblygu disgyblion o £ 1150.00.

Nid yw'n briodol i'r ysgol gyhoeddi ei chynllun manwl oherwydd y perygl y gellid adnabod unigolion.